



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Symud Cymru Ymlaen

2016-2021

llyw.cymru

Cynnwys

Rhagair gan y Prif Weinidog	2
Ffyniannus a Diogel	4
Iach ac Egniol	7
Uchelgais a Dysgu	9
Unedig a Chysylltiedig	12
Heriau a Chyfleoedd Cyffredin	15
Bwrw Ati i Gyflawni	15

Rhagair

Mae Symud Cymru Ymlaen yn nodi sut y bydd y Llywodraeth hon yn darparu mwy o swyddi o ansawdd gwell drwy economi gryfach a thecach, yn gwella a diwygio ein gwasanaethau cyhoeddus, ac yn adeiladu Cymru unedig, gysylltiedig a chynaliadwy.

Mae pum mlynedd eithriadol bwysig o'n blaen. Er bod penderfyniad y Deyrnas Unedig i adael yr Undeb Ewropeaidd yn creu tipyn o ansicrwydd ac yn cyflwyno tipyn o heriau, mae ein

mandad yn glir. Bydd Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio'n ddiflino ar wella'n heconomi a'n gwasanaethau cyhoeddus, sydd gyda'i gilydd yn sylfaen i fywydau beunyddiol ein pobl.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'n prif flaenoriaethau ar gyfer cyflawni'r gwelliannau hyn. Maent yn fesurau uchelgeisiol sydd â'r nod o wneud gwahaniaeth i bawb, ar bob cam o'u bywydau.

Rhaid i'n rhaglenni adlewyrchu'r ffaith bod Cymru'r 21ain ganrif yn wlad amrywiol a chymhleth. Rhaid inni gefnogi pobl pan fo angen hynny fwyaf, ac arfogi gwasanaethau i ymateb i heriau, megis poblogaeth sy'n heneiddio, hinsawdd sy'n newid, technolegau newydd a globaleiddio. Cwestiwn arall sy'n codi wrth inni wynebu dyfodol y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd yw pa fath o wlad ydyn ni am fod. Er mwyn darparu sefydlogrwydd, byddwn yn parhau â'n hymrwymiad i sicrhau'r setliad cywir i bobl Cymru. Rhaid i ni weithio gyda'n gilydd i symud y wlad gyfan yn ei blaen a chyfrannu at gyflawni nodau sy'n gyffredin i ni i gyd.

Er mwyn mynd i'r afael â'r materion sydd o'n blaen, mae angen ffyrdd newydd o weithio gan gynnwys rhaglenni cydgyssylltiedig sy'n atgyfnerthu ac yn adeiladu ar yr hyn y mae pobl a chymunedau yn ei wneud eu hunain. Mae Symud Cymru Ymlaen yn dangos sut y byddwn yn gweithio ar draws ffiniau traddodiadol i gyflawni ein blaenoriaethau. Bydd pedair strategaeth drawsbynciol yn ein helpu i gael yr effaith fwyaf posib yn y cyfnod ansicr hwn sydd o'n blaen, a chyflawni addewid Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

Rhaid i ymddygiad cyfrifol ac ymarferoldeb cyllidol dywys ein gwaith. Mae cyni Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn parhau, ac mae pob dadansoddiad gwrthrychol o effaith bosibl gadael yr Undeb Ewropeaidd yn dweud y dylem baratoi i weld yr economi'n crebachu. Felly nawr yn fwy nag erioed mae bod mewn

Llywodraeth yn golygu gwneud dewisiadau, ac fe fydd rhai anodd iawn o'n blaen. Pan fyddwn yn dechrau rhaglenni newydd i gyflawni ein haddewidion, bydd rhaid inni roi terfyn ar rywbeth arall i dalu amdano. Dyna'r realiti newydd ar gyfer y Cynulliad hwn, ac mae'n rhaid i bob plaid addasu i hyn os ydynt am chwarae rhan ddifrifol yn nyfodol Cymru.

Mae'r addewidion a wnaed gan yr ymgyrch adael yn y Refferendwm Ewropeaidd eisoes wedi mynd i ebargofiant. Yn awr, felly, bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru ddangos unwaith eto y gall ein polisiau gyflawni, a hynny mewn amgylchiadau gwahanol ac anoddach hyd yn oed.

Mae arweinwyr da yn gwrando. Nid oes gan unrhyw un fonopoli ar syniadau da. Bydd ein llywodraeth ni yn un agored, yn croesawu syniadau newydd ac yn barod i weithio gydag eraill.

Gyda'n gilydd, gallwn adeiladu Cymru sy'n fwy hyderus, yn fwy cyfartal, yn fwy medrus ac yn fwy cadarn. Fel gwlad rydyn ni eisoes yn cyflawni mwy na'r disgwyl ar y llwyfan rhyngwladol, a nawr rydyn ni'n barod i wneud mwy. Rydw i am weld Cymru ddiogel sy'n ffynnu, Cymru iach ac egniol, Cymru uchelgeisiol sy'n dysgu, Cymru unedig a chysylltiedig.

Dyma'r Gymru yr ydym yn benderfynol o'i chreu dros y pum mlynedd nesaf.

Carwyn Jones
Y Prif Weinidog



Ffyniannus a Diogel

Mae ffyniant yn rhoi sicrwydd i unigolion, teuluoedd a chymunedau. Ein nod yw darparu swyddi gwell, yn nes adref. Rydym am weld gwaith a chartrefi diogel i bawb, gyda chymorth twf cynaliadwy ein busnesau.

Yr heriau sydd o'n blaen fydd yn siapio ein huchelgeisiau. Ymhlith yr heriau hyn mae'r cyni parhaus, ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd, globaleiddio, arloesi technolegol, y newid yn yr hinsawdd a phoblogaeth sy'n heneiddio. Bydd y Llywodraeth hon yn canolbwyntio ar ymyriadau effeithiol sy'n rhoi mwy o sicrwydd ariannol i fusnesau ac unigolion er mwyn sicrhau twf a ffyniant.

Awn ati i feithrin yr amodau sy'n angenrheidiol i ganiatáu i fusnesau ffynnu ac i greu a chadw swyddi o ansawdd da yng Nghymru. Byddwn yn hyrwyddo gweithgynhyrchu fel sector allweddol ar gyfer twf yn economi Cymru. Byddwn yn lleihau'r baich ar fusnesau ac yn ysgogi arloesi a thwf, gan gydweithio gyda'n prifysgolion a'n colegau. Byddwn yn adeiladu seilwaith er mwyn i Gymru barhau i symud ac i gysylltu pobl â swyddi, tai a gweithgareddau hamdden.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae proffil Cymru wedi codi ar draws y byd fel lle ardderchog i fuddsoddi, cynnal busnes, ymweld, astudio a byw. Mae gennym enw da ar draws y byd o ran datblygu cynaliadwy. Gan adeiladu ar lefelau uwch nag erioed o fewnfuddsoddi, byddwn yn chwilio'n gyson am

farchnadoedd a buddsoddwyr newydd o bob cwr o'r byd, ac yn hyrwyddo Cymru fel partner rhyngwladol gweithredol.

Darparwn y gefnogaeth sydd ei hangen ar bobl i gael mynediad at y swyddi hyn. Mae gwell ysgolion a sgiliau yn bwysicach nag erioed i'n pobl ifanc ac i ddyfodol yr economi. Drwy well addysg a thrwy darparu sgiliau ar gyfer bywyd, gallwn helpu i dorri'r cylch o anfantais ac anghydraddoldeb yn y tymor hir. Rydym yn ymrwymo i gynnig y sgiliau a'r profiadau sydd eu hangen ar bobl i ffynnu heddiw.

Mae sicrhau bod pobl yn cael swyddi ac yn eu cadw yn golygu mwy na dim ond gwella sgiliau. Awn ati i wella iechyd y gweithlu, gan gynnwys iechyd meddwl, drwy sicrhau bod y gwasanaethau iechyd yn cefnogi pobl drwy gydol eu bywydau gwaith.

Rydym yn cynnig gwell bargaen ar ofal plant i gael gwared ar yr hyn all rwystro pobl rhag cael swyddi. Rydym am helpu'r rhai sydd am weithio, neu ddechrau busnes, ond sydd ar hyn o bryd yn cael eu cyfyngu gan ofynion gofal plant.

Byddwn yn buddsoddi'n sylweddol mewn trafnidiaeth ledled Cymru er mwyn sicrhau bod modd i bobl deithio'n rhwydd i gyrraedd at swyddi, ac er mwyn i fusnesau fasnachu'n esmwyth.

Cefnogi Busnesau

- Torri treth, gan arwain at filiau llai i 70,000 o fusnesau, a gostwng biliau ardrethi busnes i ddim ar gyfer hanner y cwmnïau cymwys.
- Creu Banc Datblygu Cymru.

- Ysgogi mewnfuddsoddi, arloesi a chreu swyddi newydd drwy Gynllun Sbarduno Busnes ar gyfer busnesau cynhenid â photensial byd-eang, a luniwyd i wella gwaith marchnata, hysbysebu, rhwydweithio a buddsoddi mewn sgiliau.
- Hyrwyddo canolfannau technoleg, yn arbennig mewn trefi a dinasoedd lle mae colegau a phrifysgolion.
- Darparu cymorth penodol ar gyfer cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol.
- Hyrwyddo Twf Gwyrdd i greu swyddi cynaliadwy at y dyfodol.
- Cefnogi datblygiad ein busnesau llwyddiannus yn y Diwydiannau Creadigol a Thwristiaeth, ac adeiladu ar ein henw da am gynnal digwyddiadau mawr ym maes diwylliant, chwaraeon, busnes a digwyddiadau eraill.
- Hyrwyddo Cymru i ddenu buddsoddiad o'r Deyrnas Unedig ei hun ac o bob cwr o'r byd, gan helpu i ysgogi allforion i farchnadoedd newydd a'r rhai sydd eisoes yn bodoli.

Gofal Plant

- Creu'r cynnig gofal plant mwyaf hael unrhyw le yn y Deyrnas Unedig: 30 awr yr wythnos o ofal plant rhad ac am ddim i rieni plant tair a phedair oed sy'n gweithio, 48 wythnos y flwyddyn.

Ffyniant i Bawb

- Creu o leiaf 100,000 o brentisiaethau o safon uchel i bobl o bob oed.
- Ail-lunio cymorth cyflogadwyedd ar gyfer unigolion sy'n barod i gael swyddi, a'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur, er mwyn iddynt gael y sgiliau a'r profiad i ennill a chadw swyddi cynaliadwy.

- Cynnal cynllun peilot o brosiect Swyddi Gwell, yn Nes Adref, wedi'i lunio i greu canolfannau cyflogaeth a hyfforddiant mewn ardaloedd difreintiedig iawn yn economaidd.
- Parhau i wella ein polisi caffael er mwyn dod â manteision economaidd, cymdeithasol a chymunedol i Gymru.
- Sefydlu Tasglu Gweinidogol ar gyfer y Cymoedd.
- Cyflawni Bargen Dinas-ranbarth Caerdydd a datblygu borgen debyg i Abertawe a Bargen Twf ar gyfer y Gogledd.
- Datblygu'n gwaith ar gynhwysiant ariannol, gan gynnwys cymorth i wasanaethau cynghori ac undebau credyd.

Tai

- Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu 20,000 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ystod y tymor nesaf, gan gynnwys adeiladu dros 6,000 o dai drwy'r cynllun Cymorth i Brynu.
- Cyflwyno model dai newydd 'Rhentu i Berchnogi'.
- Edrych ar ffyrdd o roi diwedd ar fancio tir.
- Parhau i gydweithio yn y tymor hir gydag adeiladwyr tai er mwyn cynyddu'r gyfradd adeiladu tai.

Cymunedau Gwledig Llwyddiannus, Cynaliadwy

- Gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau dyfodol llewyrchus i amaethyddiaeth yng Nghymru, gan adeiladu ar ein trafodaethau cynnar yn dilyn refferendwm yr Undeb Ewropeaidd.
- Cefnogi diwydiant amaeth Cymru drwy gyflwyno cynllun grantiau bach i'r cynllun datblygu gwledig.

- Cefnogi gwaith y Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth Cymru er mwyn sicrhau gweithlu ymroddedig sy'n cael cyflog teilwng a hyfforddiant priodol.
- Cefnogi prosiectau dan arweiniad y gymuned, hyrwyddo datblygiad sgiliau, creu swyddi, entrepreneuriaeth, ynni cymunedol, trafnidiaeth wledig a mynediad at fand-eang.
- Diogelu tai cymdeithasol mewn cymunedau gwledig drwy roi diwedd ar Hawl i Brynu a pharhau i gefnogi gwaith yr Hwyluswyr Tai Gwledig.

Diogelwch Cymunedol a Mynd i'r Afael ag Eithafiaeth

- Adeiladu ar ddarpariaethau ein Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.
- Gweithio gyda'n Comisiynwyr Heddlu a Throseddau a phartneriaid eraill ar faterion gan gynnwys trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a seiberddiogelwch a seiberdroseddau.
- Gweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig i fynd i'r afael ag eithafiaeth, a chyda phartneriaid ar draws Cymru i helpu i herio eithafiaeth a sicrhau diogelwch.
- Annog cydweithio agosach rhwng gwasanaethau brys.

Yr Amgylchedd

- Symud ymlaen tuag at ein nod o weld gostyngiad o 80% o leiaf yn ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2050, a pharhau â'n gwaith i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau lleol.
- Parhau i arwain gwledydd eraill o ran ailgylchu a lleihau'r gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi.
- Cefnogi datblygiad mwy o brosiectau ynni adnewyddadwy, gan gynnwys môr-lynnoedd llanw a chynlluniau ynni cymunedol.
- Buddsoddi yn y sgiliau angenrheidiol ar gyfer yr economi werdd a hyrwyddo twf gwyrdd ac arloesi.
- Parhau i fuddsoddi mewn gwaith amddiffyn rhag llifogydd a chymryd camau pellach i reoli dŵr yn well yn ein hamgylchedd.
- Parhau i wrthwynebu ffracio, a hynny ar sail tystiolaeth.

Iach ac Egniöl

Mae iechyd da wrth wraidd pob uchelgais sydd gennym ar gyfer Cymru. Rydym wedi ymrwymo i helpu i wella iechyd a llesiant pawb. Mae byw bywydau iach yn ein galluogi i gyflawni ein potensial, cyflawni ein huchelgais addysgol a chwarae rhan lawn yn economi a chymdeithas Cymru. Ein huchelgais yw sefydlu'r egwyddor o fyw'n iach yn ein holl raglenni a sicrhau ffocws ar iechyd ym mhopeth a wnawn.

Mae poblogaeth sy'n tyfu, yn heneiddio ac yn newid yn arwain at gynnydd yn y galw am ofal iechyd a'r costau cysylltiedig. Mae bwlch rhy fawr o hyd rhwng iechyd y cyfoethocaf a'r tlotaf yn ein cymunedau. Mae'r heriau hyn yn gofyn am amrywiol ymatebion, a hynny o enedigaeth hyd at henaint er mwyn sicrhau'r iechyd a'r llesiant gorau posibl gydol oes.

Rydym wedi ymrwymo o hyd i egwyddorion sylfaenol y GIG, sef gofal iechyd rhad ac am ddim ar gael i bawb pan fo'i angen. Byddwn yn amddiffyn a gwella GIG Cymru dros y pum mlynedd nesaf ac yn sicrhau ei fod yn datblygu'n effeithiol i ddiwallu anghenion y dyfodol.

Fodd bynnag, mae angen i'r GIG adlewyrchu anghenion ein cymdeithas fodern, gyda chysylltiadau agosach rhwng gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, darpariaeth gymunedol gryfach a gwell trefn ar wasanaethau ysbytai cyffredinol ac arbenigol. Awn ati i symud mwy o ofal a gwasanaethau o ysbytai i gymunedau, gyda chymorth Gwasanaethau Iechyd a Gofal integredig a chynaliadwy a all ddiwallu'r galw heddiw ac yn y dyfodol. Darparwn ofal a thriniaeth yn brydlon i gleifion pan fo angen.

Anelwn i helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu ymddygiad iach drwy gydol eu blynyddoedd ffurfiannol. Addysg yw'r ffordd orau o wella cyfleoedd bywyd pobl ifanc yn y tymor hir. Mae sicrhau bod pobl ifanc yn cyrraedd cerrig milltir pwysig o ran eu datblygiad yn sylfaenol bwysig nid yn unig o ran cyrraedd a chanlyniadau o ran galwedigaeth, ond hefyd i iechyd a llesiant ehangach oedolion.

Hyrwyddwn ddewisiadau iach a ffyrdd iach o fyw drwy ymyriadau i atal afiechyd ac annog mwy o ymarfer corff ar gyfer llesiant cyffredinol gydol oes. Awn i'r afael â gordewdra. Helpwn i ddatblygu gwell cefnogaeth ar gyfer salwch meddwl.

Drwy helpu pobl i gael swyddi cynaliadwy a rhoi sylw i salwch meddwl yn y gweithle, rydym yn ehangu effeithiau swyddi a thwf i gynnig y cymorth y mae pobl ei angen.

Mae gennym agwedd bositif tuag at gyfraniad hanfodol pobl hŷn i gymdeithas, gan gynnwys darparu gofal. Wrth i bobl fyw yn hirach, byddwn yn gweithio gyda chymunedau i helpu'r boblogaeth sy'n heneiddio i barhau i fod yn iach cyn hired â phosib yn ddiweddarach yn eu bywydau.

Gwella ein Gwasanaethau Gofal Iechyd

- Cyflwyno Cronfa Triniaethau Newydd er mwyn i bobl Cymru fedru cael mynediad cyflym at driniaethau newydd ac arloesol, a rhoi terfyn ar y loteri cod post am gyffuriau a thriniaethau nad ydynt ar gael yn gyffredinol drwy'r GIG.
- Parhau i wella mynediad at feddygfeydd, gan ei gwneud yn haws cael apwyntiad.
- Buddsoddi mewn fferyllfeydd cymunedol i leddfu'r pwysau ar ein meddygfeydd.

- Ceisio sefydlu Adolygiad Seneddol i ddyfodol hirdymor iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru.
- Cynyddu buddsoddiad mewn cyfleusterau i leihau amseroedd aros a manteisio ar dechnoleg ddigidol i helpu i gyflymu diagnosis.
- Buddsoddi mewn cenhedlaeth newydd o ganolfannau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol integredig wrth drawsnewid ystad ein hysbytai.

Ein Staff Gofal Iechyd

- Gweithredu i ddenu a hyfforddi mwy o feddygon teulu, nyrsys a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill ledled Cymru.
- Sicrhau mwy o nyrsys, mewn mwy o leoliadau, drwy gyfraith lefelau staffio nyrsys estynedig.
- Buddsoddi i hyfforddi staff y GIG a chreu corff unigol i gomisiynu a darparu addysg a hyfforddiant i bob gweithiwr iechyd proffesiynol, yn arbennig y gweithlu gofal sylfaenol er mwyn cefnogi gwaith meddygon teulu.
- Gweithio i sicrhau cysylltiadau diwydiannol da, er lles staff a chleifion.

Iach ac Egnïol

- Cyflwyno bil iechyd y cyhoedd newydd.
- Gweithredu rhaglen Plant Iach Cymru i sicrhau cysondeb o ran darpariaeth gwasanaethau iechyd cyffredinol i blant hyd at saith oed.

- Gweithio gydag ysgolion i hyrwyddo ymarfer corff i blant a phobl ifanc, ac ymwybyddiaeth ynghylch pwysigrwydd dewisiadau bywyd iach.
- Parhau i hyrwyddo ymarfer corff a maeth, lleihau'r achosion o or-yfed alcohol a thorri cyfraddau ysmegu Cymru i 16% erbyn 2020.
- Cyflwyno Bond Llesiant Cymru, gyda'r nod o wella iechyd meddyliol a chorfforol a lleihau achosion o ddiffyg ymarfer corff, diffyg maeth a gor-yfed alcohol.

Iechyd Meddwl a Llesiant

- Rhoi blaenoriaeth i driniaeth a chymorth iechyd meddwl ac atal a lleddfu salwch meddwl, gan gynnwys cynllun peilot Presgripsiwn Cymdeithasol a chynyddu mynediad at therapïau siarad.
- Gweithio gydag ysgolion, cyflogwyr a phartneriaid eraill i wella llesiant a hyrwyddo gwell iechyd emosiynol.
- Gweithio i roi diwedd ar gamwahaniaethu ar sail iechyd meddwl.

Gofal a Phobl Hŷn

- Mwy na dyblu'r cyfalaf y gall pobl ei gadw pan fyddant yn mynd i mewn i ofal preswyl i £50,000.
- Sicrhau bod ein deddfwriaeth arloesol ar wasanaethau cymdeithasol yn cael ei gweithredu'n llawn a bod yr holl fanteision yn cael eu gwireddu.
- Cadw'r Gronfa Gofal Canolraddol.
- Cymryd camau pellach i wneud Cymru'n wlad sy'n ystyriol o ddementia drwy ddatblygu a gweithredu cynllun dementia cenedlaethol newydd.
- Datblygu strategaeth genedlaethol a thraws-lywodraethol i roi sylw i unigrwydd ac arwahanrwydd.



Uchelgais a Dysgu

Mae ffyniant a llewyrch Cymru, ynghyd â'i sefydlogrwydd, yn dibynnu ar sgiliau a gwerthoedd ei phobl. Mae gan addysg rôl hollol sylfaenol i'w chwarae o ran boddhad personol, datblygu cymunedol a chreu cyfoeth. Mae pawb yn haeddu'r cyfle i wireddu eu potensial, a chredwn fod addysg yn newid bywydau ac yn hybu twf economaidd. Addysg fydd yn datblygu'r gweithlu sydd ei angen arnom ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus sydd wrth galon ein huchelgeisiau ar gyfer Cymru ac addysg fydd yn ein helpu i ddod â'r cylch o anfantais ac anghydraddoldeb i ben yn y tymor hir.

Rydym am greu'r amodau a fydd yn caniatáu i bob plentyn gael y dechrau gorau posib i fywyd. Cydnabyddwn fod y 1,000 diwrnod cyntaf yn hollbwysig ym mywyd plant ac mae'r hyn sydd ei angen arnynt yw iechyd da, cartref diogel a chlyd a sylfaen dda o ran eu gallu i ddarllen.

Mae ein diwygiadau i'r system addysg yn canolbwyntio ar godi safonau, cau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng y disgyblion tlotaf a'u cyfoedion, a hyrwyddo arweinyddiaeth gref a chydweithio da.

Fe barhawn i drawsnewid y sector addysg a sgiliau drwy gefnogi athrawon ac addysgwyr i ddatblygu eu sgiliau – a bydd disgwyl iddynt wneud hynny – a thrwy wella'r adeiladau y mae plant a myfyrwyr yn dysgu ynddynt. Gweithiwn mewn partneriaeth â rhieni, athrawon, myfyrwyr a sefydliadau addysg i

wynebu'r heriau – rydym yn uchelgeisiol o ran ein hymrwymiad i sicrhau dyfodol deinamig ar gyfer ein pobl ifanc.

Mae sector addysg bellach ac addysg uwch llewyrchus yn rhan hanfodol o'n gweledigaeth – y nod yw addysgu pobl a chefnogi busnesau a phrifysgolion i arloesi. Yn awr yn fwy nag erioed, mae gan ein prifysgolion gyfleoedd, ond hefyd gyfrifoldebau, fel sefydliadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Y sail i'n gwaith i gyd yw'r gred na ddylai'r gallu i fanteisio ar addysg ddibynnu ar ble mae rhywun yn byw neu beth yw eu hincwm: fe barhawn â'n hymdrechion i leihau anghydraddoldebau a chwalu'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag manteisio ar addysg

Y Cychwyn Gorau i Blant

- Parhau â'n rhaglenni rhianta cadarnhaol, a'u datblygu.
- Cefnogi teuluoedd a rhieni i leihau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, a all gael effaith gydol oes.
- Parhau â'n rhaglen ymyriadau arloesol, Dechrau'n Deg.
- Parhau â'n hymrwymiad i'r Cyfnod Sylfaen.
- Sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posib i fywyd drwy Grant Amddifadedd Disgyblion estynedig.
- Ceisio cefnogaeth ar draws y pleidiau ar gyfer deddfwriaeth i ddod â'r amddiffyniad 'cosb resymol' i ben.

Plant sy'n Derbyn Gofal

- Archwilio ffyrdd o sicrhau bod plant mewn gofal yn mwynhau'r un cyfleoedd mewn bywyd â phlant eraill, a diwygio'r ffordd y gofelir amdanynt os bo angen.
- Gweithio i leihau defnydd diangen o ofal, gan ddatblygu ar waith y Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd i gefnogi'r plant a'r teuluoedd mwyaf agored i niwed yng Nghymru.

Safonau Mewn Ysgolion

- Buddsoddi £100 miliwn ychwanegol i wella safonau ysgolion dros y tymor nesaf.
- Ymestyn y Cynnig i Ddisgyblion, a ddatblygwyd yn ein Hysgolion Her, i barhau i gau'r bwlch cyrhaeddiad.
- Parhau i ddatblygu cwricwlwm newydd i sicrhau bod gan bobl ifanc y sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad sydd eu hangen arnynt i fod yn greadigol ac i feddu ar ddealltwriaeth o'r byd er mwyn bod yn bobl hyderus, gyflawn ac agored.
- Lleihau maint dosbarthiadau babanod.
- Buddsoddi bron £2 biliwn erbyn 2024 mewn ailwampio ysgolion, adeiladau ysgolion newydd, adeiladau ysgolion cymunedol ac adeiladau colegau.
- Cynnal cynllun peilot o fodel newydd o Ganolfannau Dysgu Cymunedol a fydd yn darparu ystod estynedig o wasanaethau megis gofal plant, cymorth i rieni, dysgu i deuluoedd a mynediad at gyfleusterau i'r gymuned, a hynny oll wedi'i ddatblygu o gwmpas y diwrnod ysgol.
- Deddfu ar gyfer system newydd o gymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Gweithlu Ysgolion

- Cydnabod, hyrwyddo ac annog rhagoriaeth ym maes addysgu er mwyn codi safonau, a datblygu hyfforddiant a chyfleoedd i athrawon a'r gweithlu addysg ehangach.
- Datblygu model newydd ar gyfer cyflogi a datblygu athrawon cyflenwi yng Nghymru.
- Adolygu effaith polisïau cyfredol ar leoedd gwag mewn ysgolion, gyda phwyslais ar ysgolion mewn ardaloedd gwledig, er mwyn ymateb yn briodol i'r tueddiadau o ran twf yn y dyfodol.
- Ailwampio dysgu Cymraeg yn ein hysgolion i alluogi pobl ifanc i ddefnyddio'u sgiliau iaith Gymraeg yn y gymdeithas ehangach.

Cynhwysiant Digidol

- Rhoi blaenoriaeth i ysgolion o ran cael mynediad at fand eang cyflym iawn yn y rhaglen genedlaethol o ehangu mynediad.
- Cefnogi'r gwaith o gyflwyno Cymhwysedd Digidol yn ein hysgolion, a datblygu sgiliau codio ymhlith ein pobl ifanc.

Addysg Bellach ac Uwch

- Blaenoriaethu cymorth i wella cysylltiadau rhwng addysg a diwydiant, gan alluogi ac annog arloesedd ac entrepreneuriaeth ar draws ein sectorau cyhoeddus a phreifat mewn cydweithrediad â'n prifysgolion a'n colegau.
- Hyrwyddo a gwella llwybrau academiaidd a galwedigaethol ym maes addysg bellach ac uwch a rolau ein sefydliadau addysg yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd llawn amser a rhan amser a fydd o fudd i ddysgwyr o bob oedran, ynghyd â chyflogwyr a chymunedau.

- Datblygu cysylltiadau agosach rhwng ein hysgolion a'n prifysgolion er mwy cryfhau ein gwaith ehangu mynediad a chynorthwyo mwy o blant sy'n derbyn gofal i fynd i'r brifysgol.
- Gwneud defnydd gwell o'n perthynas â phrifysgolion Cymru i werthu Cymru i'r byd yn dilyn y bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd – a gweithio gyda'r sector i sicrhau y diogelir myfyrwyr a grantiau ymchwil pwysig.
- Ymgynghori ymhellach ar argymhellion penodol adolygiad Hazelkorn, gan gynnwys y trefniadau cyllido, rheoleiddio a llywodraethu ym maes addysg bellach ac uwch.
- Cynnig y pecyn gorau o gymorth i fyfyrwyr yn y Deyrnas Unedig yn seiliedig ar argymhellion Adolygiad Diamond, gyda'r nod o roi'r argymhellion ar waith yn gynnar lle bo hynny'n briodol, heb gael effaith negyddol ar y gyllideb ar gyfer addysg uwch.
- Archwilio'r posibilrwydd o ehangu cylch gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynnwys addysg bellach.
- Cynnal Cronfa Ddysgu Undebau Cymru, sydd wedi bod yn llwyddiant.

Unedig a Chysylltiedig

Mae Cymru'n gysylltiedig â'r byd o'i chwmpas. Rydym yn cyfrannu at y byd hwnnw ac, yn ei dro, mae'r byd hwnnw'n dylanwadu arnom ni. Mae'r bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd yn golygu y bydd rhaid inni weithio'n galetach fyth i gysylltu Cymru â'r byd.

Rydym wedi gweld datblygiadau technolegol sylweddol dros y degawd diwethaf. Mae'r rhain yn golygu bod mwy o gyfleoedd nag erioed o'r blaen i gysylltu â phobl yng Nghymru a thu hwnt. Ni all hyn ddisodli pwysigrwydd cymunedau cryfion a chysylltiadau trafniadaeth, ond serch hynny maent yn gyfle ychwanegol i sicrhau Cymru unedig ac i ymestyn ein dylanwad.

Parhawn i ddatblygu cymdeithas unedig a chysylltiedig, cymdeithas sy'n parchu ac yn gwerthfawrogi pawb. Caiff y bobl eu cefnogi gan wasanaethau cynaliadwy sy'n diwallu anghenion cyfoes ac yn paratoi ar gyfer heriau'r dyfodol. Parhawn i fuddsoddi mewn seilwaith er mwyn rhoi hwb i economi a chymunedau Cymru ac er mwyn cysylltu pob rhan o Gymru.

Fe gefnogwn ni bobl o'u genedigaeth i'w henaint, a chefnogi eu cymunedau hefyd. Rydym wedi ymrwymo i gyflawni'r diwygiadau sydd eu hangen i sicrhau bod ein gwasanaethau cyhoeddus yn gadarn ac yn gydnerth ac yn barod ar gyfer anghenion y dyfodol. Bydd ein diwygiadau i'r system addysg yn newid bywydau ac yn hwb i dwf economaidd. Fe ganolbwyntiwn ar ymyriadau economaidd a fydd yn rhoi mwy o sicrwydd ariannol i fusnesau ac unigolion. Datblygwn

fodel cymdeithasol o ofal iechyd a gofal cymdeithasol – model a fydd yn cyd-fynd yn well ag anghenion a gwasanaethau lleol.

Mae angen inni fynd yn ddigidol o ran ein darpariaeth o wasanaethau llywodraethol gan osod esiampol a herio'r gwasanaeth iechyd a'r sector addysg i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y mae'r oes ddigidol yn eu cynnig.

Mae strwythurau diwylliannol a democrataidd yn bwysig i'n huchelgais o sicrhau undod. Rydym am weld defnydd ehangach o'r Gymraeg a chynnydd yn y nifer sy'n ei siarad. Mae diwylliant wrth galon ein gwlad a bwriadwn ei feithrin a'i faethu. O ran hyrwyddo twristiaeth a diwylliant, bydd cysylltiadau rhyngwladol yn hollbwysig.

Mae Cymru'n dylanwadu y tu hwnt i'w ffiniau. Rydym yn Llywodraeth sydd ag agwedd agored i'r byd, sydd am i Gymru fod yn wlad uchelgeisiol a rhyngwladol. Ceisiwn fuddsoddiad a chyfleoedd masnachu o bob cwr o'r byd. Pan fydd gan Gymru lais ar faterion sydd o bwys inni – fe godwn ein llais. Parhawn i feithrin cysylltiadau rhyngwladol ym maes addysg bellach ac uwch a pharhawn i hyrwyddo a rhannu arferion gorau rhyngwladol ym maes gofal iechyd.

Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol

- Sefydlu Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i ddarparu mwy o sicrwydd a chynaliadwydd ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol.
- Gweithio gyda Chomisiwn Seilwaith Cenedlaethol y Deyrnas Unedig i sicrhau bod penderfyniadau allweddol ynghylch buddsoddi yn ystyried anghenion Cymru.

Trafnidiaeth

- Darparu ffordd liniaru ar gyfer yr M4, ynghyd â gwelliannau i'r A55, yr A40 yn y Gorllewin a chefnffyrdd eraill.
- Creu Metro De Cymru a bwrw ymlaen i ddatblygu Metro Gogledd Cymru.
- Datblygu masnachfaint rheilffyrdd newydd, dielw, a darparu rhwydwaith mwy effeithiol o wasanaethau bws, unwaith y bydd y pwerau wedi'u datganoli.
- Sicrhau trefniadau di-dor o ran tocynnau a gwell marchnata fel rhan o'r trefniadau teithio newydd ar gyfer Cymru.
- Sicrhau gwell mynediad at deithio llesol i bawb.

Cysylltedd Digidol

- Dod â phobl ynghyd yn ddigidol drwy gynnig band eang cyflym a dibynadwy i bob eiddo yng Nghymru.
- Erbyn 2021, ceisio helpu 95% o bobl i gael o leiaf y sgiliau digidol sylfaenol sydd eu hangen ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

Llywodraeth Leol

- Datblygu cyd-ddealltwriaeth o'r heriau sy'n wynebu llywodraeth leol a'r gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol, ac o ran yr angen am arloesi, ysgogi sgwrs ehangach am y diwygio sydd angen ei wneud, modelau cyflawni, a pha mor gyflym y cyflawnir ac y newidir pethau.
- Newid y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru, CLILC a Llywodraeth Leol, cwtogi ar nifer y dangosyddion perfformiad yr ydym yn eu casglu, cwtogi ar ganllawiau a diwygio trefn archwilio ac arolygu allanol.

- Darparu cyllid i roi 'llawr' ar gyfer setliadau llywodraeth leol yn y dyfodol.
- Diwygio sut y cyllidir llywodraeth leol er mwyn gwneud cynghorau'n fwy cynaliadwy a hunangynhaliol gan ddefnyddio canlyniadau'r Comisiwn Annibynnol ar Gyllid Llywodraeth Leol a Phanel Llywodraeth Cymru ar Ddyfodol Cyllido.
- Gweithio gyda llywodraeth leol i adolygu'r dreth gyngor i'w gwneud yn decach fel bod pobl ag eiddo sydd o werth isel neu gymedrol yn talu llai nag y maent yn ei dalu nawr.

Asedau Cymunedol

- Datblygu ymagwedd 'Gwnaed yng Nghymru' i adlewyrchu anghenion a dyheadau Cymru.
- Gweithio gyda chymunedau i ddiogelu cyfleusterau lleol sy'n dod â phobl ynghyd, megis tafarndai, llyfrgelloedd, amgueddfeydd, canolfannau celfyddydol a chanolfannau hamdden.
- Parhau â'r polisi o fynediad am ddim i Amgueddfeydd Cenedlaethol.
- Cyflwyno mesurau i atal pethau rhag cau lle nad oes gwir raid ac i helpu cymunedau i berchnogi asedau cymunedol lle bo hynny'n briodol.

Cymdeithas Deg

- Mewn meysydd datganoledig, diddymu adrannau o ddeddfwriaeth Undebau Llafur Llywodraeth y Deyrnas Unedig.
- Cymryd camau pellach o ran y cyflog byw, cyfyngu ar y defnydd o gontractau dim oriau a mynd i'r afael ag arferion gwael a thwyllodrus eraill.
- Gweithredu'r cod dwy haen yn eang.

- Parhau â'n gwaith gyda phob grŵp gwarchodedig i atal camwahaniaethu ac i sicrhau cyfleoedd i bawb.
- Gweithio i sicrhau bod aelodaeth ein cyrff democrataidd yn adlewyrchu'r gymdeithas gyfan yn well a gwella cynrychiolaeth gydradd ar gyffwrdd etholedig a byrddau'r sector cyhoeddus.
- Cefnogi pleidleisio'n 16 oed, cymryd camau i sicrhau bod cymaint o bobl â phosib yn cofrestru i bleidleisio, ac archwilio sut y gall technoleg ddigidol gynyddu'r niferoedd sy'n pleidleisio.
- Darparu'r cyllid i gyflawni'r Cynllun Gweithredu diwygiedig ar gyfer Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig, gan gynnwys gwasanaeth awtistiaeth ar gyfer pobl o bob oedran yng Nghymru.

Y Gymraeg

- Gweithio tuag at sicrhau un miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
- Parhau i fuddsoddi i annog mwy o bobl i siarad a defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau beunyddiol.
- Diwygio Mesur y Gymraeg er mwyn i fusnesau ac eraill allu buddsoddi i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith a sefydlu Cronfa Defnyddio'r Gymraeg.

Y Lluoedd Arfog

- Darparu cymorth a gwasanaethau'n unol â'n Cyfamod y Lluoedd Arfog.
- Gweithio gyda phartneriaid allweddol yng Nghymru i hyrwyddo arfer gorau o ran adnabod Cymuned y Lluoedd Arfog, a gwella sut y cyfeirir pobl at wasanaethau a'r niferoedd sy'n manteisio arnynt.
- Sicrhau bod cyn-aelodau'r Lluoedd arfog yn parhau i dderbyn gofal iechyd fel sydd ei angen arnynt a pharhau â gwasanaeth gwerthfawr GIG Cymru ar gyfer cyn-filwyr, sy'n darparu mynediad at driniaethau i gyn-filwyr sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl, a rheiny'n driniaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Gwirfoddoli a'r Trydydd Sector

- Gweithio gyda phartneriaid ar draws pob sector i bennu mwy o gyfleoedd i bobl wirfoddoli.
- Adnewyddu ein perthynas â'r Trydydd Sector er mwyn gwneud y mwyaf o wirfoddoli.
- Gweithio gyda dosbarthwyr arian y loteri i archwilio'r posibilrwydd o greu cronfa gynaliadwyedd fawr er mwyn helpu sefydliadau gwirfoddol i dyfu a llwyddo.



Heriau a Chyfleoedd Cyffredin

Mae'r Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol wedi gosod mewn cyfraith ein hymrwymiad i ddatblygu polisi a gwneud penderfyniadau mewn ffyrdd a gaiff yr effaith fwyaf posib ar les hirdymor ein gwlad. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r camau a fydd yn ein symud tuag at fod yn wlad lewyrchus, gydnerth, iach a theg. Y nod yw Cymru sy'n gyfrifol yn rhyngwladol, gyda chymunedau cydlynol, diwylliant byrlymus, gyda'r Gymraeg yn ffynnu.



Bwrw Ati i Gyflawni

Mae gennym agenda uchelgeisiol ar gyfer Cymru. Mae yna lu o lwyddiannau y gallwn ddatblygu arnynt, ond y neges glir yw ein bod am sicrhau mwy o swyddi, a rheiny'n swyddi da. Rydym hefyd am gefnogi pobl i fanteisio ar y cyfleoedd hyn, ac i fyw bywydau llawn ac iach. Dim ond drwy ganolbwyntio'n ddiflino ar wella'n heconomi a'n gwasanaethau cyhoeddus y gallwn gyflawni'n agenda.

Mae Symud Cymru Ymlaen yn nodi'r pedwar maes y gallwn gael yr effaith fwyaf ynddynt, ynghyd â'r prif gamau y byddwn yn eu cymryd. Dyma ddechrau gwaith y bum mlynedd nesaf. Bydd y Gyllideb y cyhoeddwn yn fuan yn dyrannu adnoddau i gyd-fynd â'n blaenoriaethau. Bydd ein pedair strategaeth yn rhoi ystyriaeth i sut y gallwn sicrhau'r effaith fwyaf posib i bopeth a wnawn.

Bydd ein pedair strategaeth drawsbynciol yn sôn yn fanylach am y camau rhyngddibynnol y byddwn yn eu cymryd i ffurfio cyfleoedd economaidd yn y dyfodol, i gryfhau cymunedau, i alluogi pobl i ddatblygu sgiliau newydd a byw bywydau llawn ac iach, i wella mynediad at dai ac i wella ansawdd a chydnerthedd ein hamgylchedd naturiol. Nid oes gennym fonopoli ar syniadau da – ac ni allwn gyflawni ein agenda heb gymorth. Fe weithiwn ar draws y sector cyhoeddus a chyda chymunedau i gyflawni'r Gymru yr ydym yn dymuno ei gweld.

Mae'r heriau yr ydym yn eu hwynebu fel cenedl yn rhai cymhleth ac maent oll yn gysylltiedig â'i gilydd. Mae gofyn inni gyd chwarae ein rhan. Dim ond drwy fabwysiadu ffordd fwy cynhwysol o weithio y gallwn wireddu ein huchelgeisiau ar gyfer ein gwlad. Mae'r Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn gyfle i weithio mewn ffordd wahanol ac ymwneud ag eraill i ddatblygu atebion arloesol i'r heriau sy'n ein hwynebu.

Rydym eisoes yn cyflawni mwy na'r disgwyl ar y llwyfan rhyngwladol, ac mae'r bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd yn golygu y bydd rhaid inni weithio'n galetach nag erioed a chyflawni mwy fyth. Rydym yn ymwybodol bod heriau mawrion yn ein hwynebu - ac mae Symud Cymru Ymlaen yn fframwaith clir ar gyfer troi tuag at y dyfodol yn llawn hyder ac egni.

